# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

# Cylchlythyr y Pennaeth, Gorffennaf 2024
# Newsletter from the Head, July 2024

**DIOLCH  BAWB / THANKYOU ALL**

Hoffwn gychwyn drwy fynegi ein diolchiadau di-ffuant i chi gyd am eich holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ysgol yn cau am 3yh ar dydd Gwener Gorffennaf 19eg a byddwn yn ail agor i ddisgyblion dydd Mercher 4ydd o Fedi.

**Dyddiau Hyfforddiant Staff** ( Ysgol ar gau i ddisgyblion)

Dydd Llun 2il o Fedi 2024
Dydd Mawrth 3ydd o Fedi 2024
Dydd Llun 4ydd o Dachwedd 2024
Dydd Gwener 14eg o Fawrth 2025
Dydd Llun 23ain o Fehefin 2025
Dydd Llun Gorffennaf 21ain 2025

**Canlyniadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Lefel A**

Cyhoeddir canlyniadau Lefel A ac Uwch Gyfrannol eleni ar ddydd Iau 15fed o Awst, a TGAU ar Awst ddydd Iau 22ain

**Cysylltu a ni o Fedi 2024 – Arweinwyr Blwyddyn**

Pennaeth Blwyddyn 7 - Mr John Arwel Jones John.Jones@yubodedern.Cymru
Pennaeth Blwyddyn 8 – Mr Paul Magee Paul.Magee@yubodedern.Cymru
Pennaeth Blwyddyn 9 – Mr Brandon Rickards Thomas.Rickards@yubodedern.cymru
Pennaeth Blwyddyn 10 – Mr Sam Ellis Sam.Ellis@yubodedern.Cymru
Pennaeth Blwyddyn 11 – Mr Carwyn Owen Carwyn.Owen@yubodedern.Cymru

Gellir hefyd cysylltu ac Uwch arweinwyr yr ysgol:
Pennaeth-Paul Matthews-Jones Paul.Matthews-Jones@yubodedern.Cymru
Dirprwy Bennaeth- Rowena Saunderson Rowena.Saunderson@yubodedern.Cymru
Dirprwy Bennaeth- Sion Lloyd Sion.Lloyd@yubodedern.Cymru
Pennaeth- Cynorthwyol: Bryan Griffiths Bryan.Griffiths@yubodedern.cymru
Pennaeth- Cynorthwyol: Arwyn Roberts Arwyn.Roberts@yubodedern.Cymru

**Datblygiadau Eraill o Fedi 2024**

Mae ein niferoedd yn parhau i godi, ac mae blwyddyn 7 yn mynd i fod y nifer uchaf yn hanes yr ysgol gyda 183 o ddisgyblion yn ymuno a ni. O'r herwydd rydym wrth ein bodd cael croesawu y staff canlynol fydd yn ymuno a ni ym mis Medi.

**Cychwyn Mis Medi:**

Rachel Hanney – Athrawes Saesneg
Cara Mills – Gwyddoniaeth
Daniel Cooil – Saesneg/Gwyddoniaeth
Elin Jones – AMDaPh Iechyd a Lles
Emma Parry – IMT/Saesneg
Naomi Lloyd – Dyniaethau (mamolaeth)

Bydd Lois Rowlands, Pennaeth Saesneg yn dychwelyd ar ôl cyfnod o Secondiad gyda GwE

**Ffarwel a Diolch**

Rydym hefyd yn diolch ac yn dymuno'n dda i'r aelodau staff canlynol sydd yn gadael ar ddiwedd y tymor- Rhai ohonynt wedi gweithio yma ers blynyddoedd lawer gyda un neu ddau wedi bod yma ers y 1990'au. Diolch i chi gyd am eich holl wasanaeth i'r ysgol:
Carol Gruffydd, Brian Williams, Karen Thomas, Lynne Jones, Alaw Jones, Osian Jones, Dawn Williams, Ffion Walford, Matt Evans a Gemma Bennett.

Dymuniadau gorau i Elena Hughes, fydd ar gyfnod mamolaeth dros yr haf, a chroeso'n ôl i Lora Owen fydd yn dychwelyd wedi cyfnod mamolaeth.

**Parhau i fuddsoddi i wella profiadau plant Boded**

Yn ystod y flwyddyn mae sawl ardal wedi trawsnewid yn dilyn buddsoddiad sylweddol i wella profiadau ein dysgwyr. Ymysg y datblygiadau mwyaf oedd ardaloedd newydd tu allan, llawr newydd i'r gampfa fach, ystafelloedd newid newydd yn yr adran addysg gorfforol, Cae 2G newydd ar gyfer Hoci, Tenis a Phêl Rhwyd a Cae 3G newydd ar gyfer Pêl droed a Rygbi. Rydym yn galw y caf 3G yn gae Elgan Jones, er cof amdano a'i gariad tuag at Lerpwl a Phel-droed.

Mae'r flwyddyn addysgol 2024/2025 hefyd yn gweld mwy o ddatblygiadau cyffrous, gan ganolbwyntio ar adnoddau dysgu ac addysgu ac addasiadau cwricwlaidd.

O Fedi 2024 ac am y tro cyntaf bydd Ysgol Uwchradd Bodedern yn cynnig cyrsiau 14-16 oed mewn Adeiladwaith a Peirianneg, ac mae offer ac adnoddau newydd wedi eu archebu a bydd addasiadau dros yr haf i ystafell 26.
Mae hen dy y gofalwr wedi ei addasu a bydd yn agor yn swyddogol ym Medi, yma byddwn yn gallu cynnig cwricwlwm amgen a chefnogaeth arbenigol i ddysgwyr.
Yn sgil y cynnydd sylweddol mewn niferoedd, dros yr haf fydd yr adeiladwyr 'nol yn yr ysgol a thrawsnewid yr hen ystafell gyffredin y chweched dosbarth i dri ystafell ddosbarth. Bydd y

dosbarthiadau newydd yma yn ein galluogi i ddarparu yr addysg orau yn sgil y cynnydd sylweddol mewn niferoedd.
Byddwn yn buddsoddi ymhellach yn y Teleganolfan er mwyn gwella profiadau'r chweched dosbarth

Yn dilyn ymweliad ac agoriad swyddogol, rydym wedi ail enwi ein holl adnoddau chwaraeon yn Ganolfan Chwaraeon George North. Un o chwaraewyr Rygbi gorau'r byd wedi cynrychioli Cymru a'r Llewod , oedd yn ddisgybl Ysgol Uwchradd Bodedern rhwng 2003 a 2008.

**Disgwyliadau Medi 2024 – Gwisg ysgol a Ffonau Symudol**

**Ffonau Symudol**
Ers y pandemig rydym wedi ceisio polisi ble rydym yn cyd fyw gyda ffonau symudol yn yr ysgol, ond erbyn hyn mae hynny'n amhosibl. Mae ymchwil yn dangos fod defnyddio ffonau mewn ysgol yn cael effaith negyddol ar addysg plentyn. Felly o Fedi ni fydd caniatâd i ddefnyddio ffôn mewn unrhyw le yn yr ysgol.

Er mwyn sicrhau tegwch dyma sut y byddwn yn gweithredu

| Sefyllfa posib | Sut fydd yr ysgol yn ymateb |
|---|---|
| Disgybl yn defnyddio ffôn , neu cael ei weld gyda ffôn yn yr ysgol | Ni fydd rhybudd, y cylchlythyr yma yw'r rhybudd, ac felly byddwn yn gofyn yn gwrtais am y ffon, os bydd disgybl yn gwrthod byddwn yn ffonio rhieni / gwarchodwyr a gofyn i chi ein cynorthwyo a dod i nol y ffôn. Am y tro cyntaf bydd y ffôn yn cael ei ddychwelyd am 3 o'r gloch , os fydd hyn yn digwydd yn aml byddwn yn cysylltu eto gyda chi ynglŷn a'n gweithredu fydd yn unol a pholisi ymddygiad yr ysgol. |
| Disgybl yn cario y ffôn yn ei bagiau | Rydym yn parchu y gall y ffôn fod yn adnodd pwysig o ran diogelwch ar deithiau adref er enghraifft, ni fyddwn yn amlwg yn gwirio bagiau, yr hyn sy'n bwysig ydi na fyddwn yn gweld ffonau symudol yn yr ysgol |
| Hoffwn gysylltu a'm mhlentyn ar frys | Mae gennym ein llinellau ffôn arferol,gan gynnwys 'schoolcomms' ond er mwyn cynorthwyo byddwn yn archebu ffon fydd yn gallu derbyn negeseuon gennych fel ein bod yn gallu ymateb yn syth i'ch ceisiadau |
| Mae fy mhlentyn yn sâl neu eisiau cysylltu a chi ar frys | Yn yr ru'n modd, bydd aelod o staff yn y dderbynfa , fydd yn gallu cysylltu a chi yn syth. Ni allwn barhau gyda'r drefn bresennol ble mae plant yn cysylltu a rhieni a gofyn iddynt ddod i'r ysgol i'w nol heb i swyddfa'r ysgol wybod dim. |

Beth fydd mantais hyn i'm mhlentyn ac i addysg fy mhlentyn.

Dyma ran o erthygl ymchwil gan yr athro Jonathan Haidt, mewn rhagair i'r Policy Exchange:


*Imagine that you are a 12-year-old sitting in a history class in 1993, just before the internet entered our lives. You are trying to listen to your teacher, but sometimes you get bored, you daydream, you occasionally pass notes to friends. You take in about 60% of what your teacher says. Next imagine being that same child except one day your school announces a new policy: students may bring in their television sets from home, along with their video cassette recorders, record players, walkietalkies, and any other communication or entertainment device they choose. (The school buys extra-large desks for all students so that they may install their many devices and plug them in to high amperage power strips, mounted on the side of each desk.) All students take advantage of the new policy, which they quite enjoy because it allows them to talk with their friends, listen to music, watch videos …. whatever they want! Now how much do you think you'll take in from your teacher's lesson? Probably a lot less than 60% – and quite possibly zero. Imagine how dispiriting it is to be a teacher in such a school. This is essentially what we did to students, to teachers, and to education all over the world when we allowed students to bring their new smartphones into class in the early 2010s. We didn't notice that we were now allowing thousands of companies to call out to our children with push notifications in their desperate competition to attract and hold our children's attention, even during class time. But when students pay far less attention to teachers, there will be far less learning.*

Os fyddech yn gofyn i unrhyw blentyn bellach byddent yn cyfaddef mewn diwrnod ysgol byddent yn derbyn degau os nad cannoedd o 'notifications' y rhan fwyaf ar snapchat, a bod y ffon yn declyn sy'n gallu cael ei ddefnyddio i fod yn annifyr gydag eraill.

Mae cwmnïau allan yna sy'n gwerthu offer i alluogi ysgol i gadw a cloi ffonau, ond mae costau mawr ynglŷn a hyn. Rwy'n hyderus y gallwn weithio gyda'n gilydd er lles eich plentyn i weithredu ein polisi heb wario rhagor o arian.

**Gwisg Ysgol**
O ran gwisg ysgol 2025 , cafwyd 256 o ymatebion i'r holiadur , gyda 15% yn dymuno cadw y wisg bresennol yn unol ag opsiwn 1 , ac felly 85% yn dymuno newid yn unol ag opsiwn 2. Ar hyn o bryd mae'r disgyblion hefyd yn pleidleisio drwy classroom gyda'r canlyniadau hyd yma yn debyg iawn. Rydych felly wedi pleidleisio'n unfrydol i newid y wisg, a'n tasg yn fuan ym Medi fydd cadarnhau manylion y wisg ar gyfer Medi 2025.

Mae eleni wedi bod yn anodd i ni o ran gweithredu'r polisi gwisg ysgol, a byddwn yn derbyn y feirniadaeth ein bod ninnau hefyd wedi llacio gormod a ddim wedi gweithredu'n ddigon cyson. Bydd hyn yn newid o Fedi 2024 ble disgwylir i bob disgybl wisgo'r wisg lawn yn unol a pholisïau'r ysgol. Cofiwch ein bod yma i helpu chi gyda'r wisg ar unrhyw adeg, boed hynny drwy'r banc dillad neu gymorth archebu.


Ysgol Uwchradd Bodedern

English

MEWNGOFNODI Hwb LOG IN

Schoolgateway

HAFAN AMDANOM NI NEWYDDION RHIENI DISGYBLION STAFF

# Gwisg Ysgol

**Dylai pob disgybl Blwyddyn 7 -11 wisgo:**

- Tei ysgol – streipen goch a nefi (maent i'w cael yn yr ysgol neu'r siopau).
- Siwmper wedi ei gweu nefi blw gyda gwddw V a logo’r ysgol.
- Mae’r ysgol yn hyrwyddo Look Around Sport, Brodwaith, Orchid Fashion a Little Treasures fel ein prif ddarparwyr
- Blows / Crys coch plaen, gyda choler a llewys hir (neu llewys byr yn yr haf - nid crys "polo")

Mae gwisg wahanol ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 a 13: siwmper gwddw V mewn glas tywyll gyda log y 6ed dosbarth a chrys gwyn.

Gellir darllen mwy ar ein gwefan : Gwisg Ysgol — Ysgol Uwchradd Bodedern (CY)

**Sut y byddwn yn gweithredu**

Os fydd eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol heb y wisg ysgol gywir yna byddent yn cael cynnig benthyg a gwisgo y wisg , boed yn siwmper, crys neu tei o stoc yr ysgol , neu os nad ydynt yn barod i wneud hynny yna byddwn yn cysylltu a chi gyda chais i chi ddod yn syth i’r ysgol gyda’r eitemau cywir o’r wisg ysgol.  Mae’n gwbl annheg os oes sefyllfa ble fod rhai yn cael gwisgo gwisg eu hunain. Hoffwn hefyd atgoffa na fydd caniatâd i wisgo hoodies a chotiau o amgylch yr ysgol.

Hyderaf y byddwch yn cytuno gyda’r addasiadau pwysig yma fydd yn sicrhau tegwch , ymdeimlad o berthyn a cynorthwyo i redeg yr ysgol yn esmwyth fydd yn ein galluogi i wella profiadau eich plentyn.

**Fapio**

Ar y cyd ag asiantaethau , Llywodraeth Cymru a’r Adran Addysg, a rhaglen Iechyd a Lles yr ysgol byddwn yn rhoi ffocws ar beryglon ‘vapio’ ac addysgu pobl ifanc ynglŷn a vapio. Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn safle gyfan gwbl ddi fwg ac mae hyn yn cynnwys pob e – sigarét.

**Presenoldeb**

Rydym angen eich cymorth - Mae presenoldeb disgyblion wedi gostwng dros Gymru gyfan dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O’r herwydd bydd cynyddu presenoldeb yn un o brif flaenoriaethau’r ysgol. Mae ymchwil yn dangos fod lefel presenoldeb is law 90% yn cael effaith negyddol ar gyrhaeddiad ac addysg plentyn. Ar hyn o bryd mae llawer o blant yn cysylltu’n uniongyrchol a rhieni gyda ceisiadau i ddod i’w nol. Gofynnaf yn garedig i bob cysylltiad o’r fath fynd drwy brif swyddfa’r ysgol. Mae gennym strategaethau penodol er mwyn gwella presenoldeb, yn enwedig gwella presenoldeb blynyddoedd 10 ac 11.

**Blaenoriaethau Strategol yr ysgol 2024 / 2025**

Yn dilyn ein arolwg llwyddiannus rydym yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn ein argymhellion , ac yn wir mewn sefyllfa ble rydym o'r farn fod y cynnydd yn sylweddol. Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n ymuno a ni er mwyn dilyn eu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, neu i wella eu Cymraeg yn destun balchder. Bydd y Gymraeg yn cael lle blaenllaw yn ein gweithredu strategol flwyddyn nesaf.

## Blaenoriaethau Strategol Ysgol Uwchradd Bodedern 2024/2025

1, Sicrhau datblygiad medrau Cymraeg

- ✓ Addasu ein polisi iaith i adlewyrchu y cynnydd sylweddol niferoedd o Fedi 2024, 5 o'r 8 dosbarth yn gyfrwng Cymraeg gyda un dosbarth pontio iaith.
- ✓ Cynyddu safonau medrau Cymraeg ar draws yr ysgol gan gynnwys deilliannau cymwysterau

2, Parhau i wella addysgu a sicrhau cysondeb traws ysgol

- ✓ Diweddaru sefyllfa YUB parthed ansawdd a chysondeb yr addysgu, faint o gynnydd ers argymhelliad Estyn

3, Sicrhau fod prosesau gwella ansawdd a craffu ar waith yn cael effaith ar y ddarpariaeth a'r safonau ar lawr dosbarth

4, Cynyddu presenoldeb ar draws yr ysgol gyda ffocws benodol ar flynyddoedd arholiadau

**Gweithgareddau a chlybiau**

Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld Clybiau Boded yn mynd o nerth i nerth eleni, a'r daith olaf am y tymor fydd taith i Ffrainc, y tro cyntaf i ni redeg taith tramor ers cyfnod cyn y Pandemig. Flwyddyn nesaf mae cyfle i blant blynyddoedd 7-9 fynd i Naples a Sorrento a Blynyddoedd 10 i fyny i Efrog Newydd, UDA

Ac yn olaf, neges i'n rhieni newydd; Roedd hi'n wych cael estyn croeso i 183 o ddisgyblion blwyddyn 6 ar gyfer eu diwrnodau blasu a pontio, fe wnaeth bawb fwynhau yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen at fis Medi. Diolch i bob ysgol gynradd am eu cefnogaeth ac i'r holl rieni, a pleser oedd eu cyfarfod pawb – CROESO I DEULU BODED

**Diolch am eich Cefnogaeth, gyda'n gilydd rydym yn mynd o nerth i nerth** ***/ Thank You for your support, Together we go from strenght to strength***

**Cofion / Regards,**
**Paul G S Matthews-Jones**
**Pennaeth / Head**
***11/07/24***